# Adroddiad Blynyddol
# Bwrdd y Cyfarwyddwyr 2025-2026
# Ysgol Gymraeg Llundain: Comisiwn Elusennau Rhif: 1167479

## Cyfrifoldebau Allweddol y Bwrdd

1. Sicrhau eglurder gweledigaeth, ethos a chyfeiriad strategol
2. Dwyn y Pennaeth i gyfrif am berfformiad addysgol yr ysgol a'i disgyblion, a rheoliad perfformiad staff.
3. Sicrhau rheolaeth ariannol ddarbodus yr ysgol a sicrhau bod ei harian yn cael ei wario'n ofalus.

**Cyflwyniad**

Cynhaliwyd chwe chyfarfod o'r Bwrdd eleni (2025-26) unai trwy Zoom neu gyfuniad o wyneb yn wyneb a Zoom. Mae'r cyfrifoldeb o lywodraethu'r ysgol yn fraint a da gennyf yw medru rhoi rhywbeth yn ól i ysgol a fu mor bwysig ym mlynyddoedd addysgol cynnar fy merch a'm mab.

**Ofsted Mawrth 24-26**

Cafwyd Arolwg Ofsted ym mis Mawrth. Bu'n dair blynedd ers ein harolwg diwethaf. Mae fformat yr arolygon wedi newid a ni roddir y 4 gradd arferol ond rhennir yr arolwg i saith adran gyda diogelu yn safon dros y cwbwl. Y teimlad ymhlith y staff a Llywodraethwyr oedd nad oedd yr adroddiad yn un teg er y cafwyd y safon disgwyliedig gyda
Chyrhaeddiad,
Cwricwlwm a Dysgu
Datblygiad Personol a Llés

Roedd hyn yn llwyddiant.

Gyda gweddill yr adrodiad roedd ffeithiau anghywir, gwrthddywediadau, dyfarniadau heb eu cefnogi a chamddarluniadau. Ni roddwyd unrhyw sylw i sefyllfa unigryw a heriol yr ysgol. Penderfynwyd herio'r adroddiad a chafwyd 5 niwrnod i wneud hyn. Cyflwynwyd y gwyn ar Fai 12fed ac roedd ganddynt 30 diwrnod I ymateb. Bydd cyfweliad gydag Ofsted ar y 6ed Gorffennaf ond yn anffodus ni lwyddodd Ofsted i gadw at ddyddiad yr ymateb sef Mehefin 24ain oherwydd, ' ...we were unable to progress the investigation as swiftly as we would

have wanted.'  Mae'r ymateb wedi ei ohirio i 22ain Gorffennaf.  Yn ól un cyn Brif athrawes yr ysgol, Ms Tracey O'Brian, mae'r gwyn yn un arbennig o dda ond ni ellir rhagweld beth fydd ymateb Ofsted.

**Diogelu**
Mae'r ysgol yn dilyn ac yn gweithredu ein polisi diogelu.  Tynwyd ein sylw yn Adroddiad Ofsted i ddiffygion yn ein gweithredrefnau yn nhermau Blynyddoedd Cynnar, hyfforddiant anghenion ymddygiad dwys a defnyddio cofrestr electroneg.  Bydd yn holl faterion yn cael eu diwygio a mesurau yn cael eu rhoi yn eu lle.  Yn nhermau diogelu plant yr ysgol, bu consyrn am ddisgyblion gydag anghenion dwys a rhoddwyd mesurau manwl i recordio digwyddiadau gan ddefnyddio templedau llythyrau i gysylltu á rhieni.

Bu'n flwyddyn heriol a hapus gyda phenodi cymhorthydd newydd a dathlu llwyddiannau ein disgyblion.  Er fod y niferoedd o ddisgyblion 12 yn sefydlog, nid yw hynny wedi tarfu dim ar lwyddiant a llawenydd yr addysg.  Mae'r bwrlwm a brwdfrydedd yn parhau yr un fath boed yn ddeg neu dri deg o ddisgyblion.   Bydd un disgybl yn ein gadael eleni ac rydym yn disgwyl tri phlentyn bach newydd i'r Meithrin yn Ionawr 2027.  Rydym hefyd yn disgwyl plentyn newydd i Flwyddyn 1.  Rydym yn falch iawn o fedru cyhoeddi bod y niferoedd yn codi yn araf ar ól effaith andwyol Cofid ar ysgolion.

Mae ein Hathrawes Arweiniol Miss Davies wedi ymddiswyddo i ddilyn ei gyrfa yng Nghymru a dymunwn bob llwyddiant iddi.   Diolch yn fawr iddi am ei gwaith yn ystod cyfnod digon heriol yn yr ysgol.  Cafodd Miss Davies lawer o brofiadau yn yr ysgol a fydd o fantais iddi yn ei gwaith yng Nghymru.   Rydym hefyd yn colli ei Cymhorthydd dawnus, Mr Roberts.  Bu yntau yn llwyddiannus iawn yn y ról a cydweithiodd yn arbennig o dda.  Mae yn symyd ymlaen I borfeydd brasach yn Llundain.  Mae Mrs Hughes-Ahmad gyda'i dawn arbennig o feithrin y gerddoriaeth ymhob plentyn wedi rhoi'r cyfle i  blant serenu boed hynny mewn cyngerdd neu ar lwyfan cenedlaethol yr Urdd.  Ni allwn redeg yr ysgol heb ein cymorthyddion addysgol cydwybodol a bwrsar a gweithgar a mawr yw ein diolch iddynt sef Ms Tremain  a Miss Roberts.  Un nad wyf wedi són amdani eto yw Mrs Brady.  Bu Mrs Brady yn gonglfaen yr ysgol am ddeg mlynedd ar hugain a chyn hynny bu'n hebrwng ei phum mab i'r gwahanol leoliadau y bu'r ysgol ynddi.  Bydd colled anferthol ar ól Mrs Brady – bu'n gyfrifol am weinyddu, am greu y cylchlythyr wythnosol, am fod yno i staff fynegi pryderon a llu o gyfrifoldebau eraill.  Dymunwn yn dda iddi hi a'i theulu yn eu cartref newydd yng Nghaerffili.

Mae'n cymryd ffydd, ymroddiad a phenderfyniad i  fynychu ysgol sydd, am amryw o resymau, yn wahanol i unrhyw ysgol arall yn Llundain.  Rydym ni yn ffynddiog ein bod yn cynnig addysg a chyfleon i bob un disgybl, na chánt eu tebyg mwn unrhyw ysgol arall yn Llundain.

## 1. Sicrhau eglurder gweledigaeth, ethos a chyfeiriad strategol.

Ein gweledigaeth yw bod yn ysgol ystyriol sy’n dathlu ei chryfderau ond sydd hefyd yn hunanwerthuso ac yn ymdrechu i wella er budd ein holl randdeiliaid a’r gymuned. Drwy wrando ar eraill ac ystyried barn ein rhanddeiliaid yn y broses o ddatblygu, byddwn yn

parhau i gynnig amgylchedd ddiogel, gynhwysol a phwrpasol ar gyfer ein disgyblion a'n staff. Rydym yn cydnabod bod y byd yn newid yn gyflym a thrwy ddysgu a datblygu, gallwn barhau i gaffael arbenigedd a chreu cyfleoedd pwrpasol sy'n datblygu a chyfoethogi profiad addysgol ein disgyblion. Mae gennym hanes hir a chadarn o ddarparu addysg Gymraeg ragorol i'n disgyblion yn Llundain ers 1958 a thrwy hunan-werthuso a chydweithio byddwn yn parhau am y blynyddoedd i ddod.

Ar ól ymgyrch lwyddiannus I sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru am y dair mlynedd nesaf (tan ddiwedd Awst2028) yr ydym ar dir llawer cadarnach. Rhydd hyn hyder i'r rhieni i anfon eu plant i'r ysgol ac i'r staff fod eu swyddi yn sáff. Ond rhaid dal ati I godi arian ac I ymgyrchu I ddenu mwy o blant. Y mae criw arbennig o dda o rieni y tu cefn i'r Llywodraethwyr yn gweithio'n galed iawn I godi arian a chodi ymwybyddiaeth o'r ysgol. Mae fy niolch yn fawr iddynt.

Rydym yn ymwybodol ein bod yn cystadlu gyda sefydliadau addysgol penigamp a rhaid i ninnau brofi ein gwerth. Rwyf i yn hyderus fod ein darpariaeth ni ymhlith y gorau ond ni allwn laesu dwylo na thynnu ein llygaid oddi ar y marc. Y mae cymaint o'n plaid – athrawon talentog, dosbarthiadau bychain, sylw a chyfleoedd arbennig; adnoddau a llyfrau newydd, ystafelloedd golau a gofal o'r plant sydd heb ei ail. Nid ar chwarae bach y mae teuluoedd yn penderfynu gyrru eu plant i'r ysgol. Ond, mae pethau'n newid ac yn esblygu a rhaid i ninnau fod yn barod i addasu, ymateb a symud gyda'r oes. Mae ein hethos yn gadarn fel a nodir yn ein prospectws, o werthoedd Cristnogol a gwerthoedd Prydeinig. Mae pob cyfle yn Ysgol Gymraeg Llundain i rieni a disgyblion wneud gwahaniaeth.

Penodwyd athrawes ddosbarth newydd Miss C Jones a chymhorthydd sef Miss C Stewart. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda hwy ac yn dymuno'n dda iddynt yn eu swyddi newydd ac yn Llundain.

I helpu rhieni wneud y penderfyniad a ydynt am anfon eu plant i'r ysgol ai peidio, mae un rhiant sydd á phrofiad yn y maes casglu a dadansoddi data wedi ysgrifennu llythyr agored i rieni Miri Mawr. Dywedodd hi fod nifer o amheuon ganddi hi a'i gwr cyn penderfynu anfon eu merch i'r ysgol a tasai hi wedi cael y cyfle i ddarllen am brofiadau rhieni eraill, basai hyn wedi helpu yn fawr. Gyda'i merch wedi bod yn yr ysgol am dwy flynedd, pam wnes I boeni meddai. Does dim amheuaeth o gwbwl ganddi hi a'i gwr eu bod wedi gwneud y penderfyniad cywir.

Mae'r ysgol yn gyfle i rieni gwrdd a rhieni eraill a gwneud ffrindiau oes. Rwyf yn ymwneud á'r ysgol ers y 1990au pan gychwynodd fy mhlant i yn y Cylch Chwarae. Roedd criw mawr o famau oedd yn falch iawn o'r cyfle i gael cyfarfod a chymdeithasu er mwyn atgyfnerthu'r Gymraeg. Mae hyn yn parhau i mi hyd heddiw. Roedd yn fan cychwyn pwysig iawn i sicrhau ffrindiau Cymraeg i mi fy hun ac i'm plant. Ond erbyn hyn, nid yw'n ymddangos mor hawdd nac mor syml. Rydym yn gweld bod rhai rhieni yn anfon eu plant i Miri Mawr ond ddim bob amser yn eu hanfon i'r ysgol. Pam mae hyn? Mae nifer o resymau – yr ysgol yn rhy fach, tynfa Cymreictod ddim mor gryf, pellter teithio i'r ysgol. Petaem yn medru datrys hyn, mi fasem ar y ffordd i agor ail a thrydydd ysgol Gymraeg yn Llundain! Eleni, rydym wedi cael blwyddyn hapus arall er bod y niferoedd wedi gostwng. Rydym wedi bod yn mireinio ein

strategaeth i ddenu teuluoedd newydd drwy ymestyn ein dulliau o farchnata, hysbysebion mewn cylchgronau ac erthyglau yn y wasg.

Denu rhagor o deuluoedd yw'r strategaeth ac rydym yn cymryd rhan mewn digwyddiadau gyda'r bwiad yma. Mae amryw ddigwyddiad megis Carnifal Hanwell a Party in the Park (Pittshanger) yn fodd i ledaenu'r neges yn lleol am yr ysgol. Bu'r plant yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd y Sir Fón eleni sydd yn gyfle gwych i hysbysebu'r ysgol. Mae staff yr ysgol yn cynyddu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol ac y mae presenoldeb yng Nghanolfan Cymru Llundain bob amser yn hwb da i'r ysgol.

Cafwyd clybiau a gofal ar ól ysgol diolch i'n staff ac y mae Aelwyd yr Urdd i'r disgyblion hyn a chyn-ddisgyblion yn mynd o nerth I nerth. Mae Clwb Ieuenctid yng nghapel Seion, Ealing Green, hefyd i ddisgyblion a chyn-ddisgyblion. Gyda Miriam a Joanna wrth y Llyw, mae'n cwl i siarad Cymraeg! Mae'r strategaeth farchnata yn magu momentwm o dan arweiniad tim o rieni a Ms Watkins. Mae Miri Mawr, dan ofal trefnus a brwdfrydig Miss Roberts, yn cyfarfod ar fore dydd Gwener yn fodd i feithrin disgyblion y dyfodol.

## 2. Dwyn yr Athro Arweiniol i gyfrif am berfformiad addysgol yr ysgol a'i disgyblion, a rheoliad perfformiad staff.

Gosodwyd targedau teg a heriol i'r holl staff. Adolygwyd y rhain gan Miss Davies a Mrs Jones , Llywodraethwr. Cydymffurfiwyd â Safonau Ysgolion Annibynnol (Independent School Standards Compliance). Bu adolygu a thrafod targedau sy'n rhan o ddatblygiad proffesiynol y staff. Yng nghyfarfodydd y Bwrdd cyflwynwyd adroddiad gan yr Athrawes Arweiniol ble rhoddwyd y cyfle i aelodau'r Bwrdd holi cwestiynau.

Cofnodwyd cyrhaeddiad a chynnydd y plant ar Taith 360 a chafwyd profion NFER. Yn anffodus, nid yw'n bosib defnyddio adnoddau asesu HWB sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru. R**ydym yn dilyn Cwricwlwm Cymru ac yn awr y Cwricwlwm Newydd ers blynyddoedd ond parhau rydym gyda'n hymdrechio I gael mynediad I HWB.**

Parhawyd y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm gyda Miss Davies yn arwain. Parhawyd gyda mapio'r cwricwlwm i'r tri Cam Cynnydd. Mae hyn yn waith sy'n cymryd amser a chyda staff bychan iawn mae'n waith heriol. Yn ystod ein Harolwg Ofsted diweddaraf yn 2023, roedd dod i ddeall CNC yn her i'r arolygydd ac roedd llawer o gwestiynau ac amheuon ond llwyddwyd i oresgyn hyn.

Bu arsylwadau ac archwilio gwaith y plant yn eu llyfrau. Rhoddwyd adborth llafar ac ysgrifenedig i'r athrawon ac i'r cymhorthyddion addysgu. Mae aelodau'r Bwrdd sy'n eistedd ar Is-bwyllgor Cwricwlwm a Safonau wedi gweithio yn y maes addysgu gydag un aelod ag arbenigedd mewn AAA.

Cyflwyna'r Athrawes Arweiniol adroddiad tymhorol i'r Bwrdd. Mae hwn yn gofnod addysgiadol o gyflawniadau'r ysgol, sy'n cynnwys Dadansoddi Data yn olrhain datblygiadau academaidd y disgyblion. Cyfeirir at gynnydd y disgyblion wrth greu y Blaenoriaethau Allweddol a nodir yng Nghynllun Datblygu Ysgol (SDP) a gynhyrchir yn flynyddol. Mae Fframwaith Arolygu Addysg Ofsted (Medi 2019) hefyd yn rhan o Gynllun Datblygu'r Ysgol.

Cynhelir gwerthusiad (SEF)o'r Cynllun Datblygu yn Nhymor yr Hydref er mwyn blaenoriaethu amcanion ar gyfer creu Cynllun Datblygu 2026-27.

## 3. Sicrhau rheolaeth ariannol ddarbodus yr ysgol a sicrhau bod ei harian yn cael ei wario'n ofalus.

Mae'r Is-bwyllgor Cyllid yn sicrhau rheolaeth ariannol darbodus ac yn sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n ofalus a chyfrifol. Darperir mantolen ariannol gan ein Cyfarwyddwr Cyllid, Mrs Bev Williams, ymhob cyfarfod. Derbyniwyd y sicrwydd gan ein cefnogwyr – Adran yr Iaith Gymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, Capel Kings Cross a Chapel Radnor Walk o barhád eu cefnogaeth ariannol. Ond mae diffyg ariannol ac felly mae'n angenrheidiol rheoli'r gwariant. Sicrhawyd ostyngiad yn y rent ac gydag ail-strwythuro'r staffio bydd hyn yn gwneud arbedion o oddeutu £30k. Bydd y Bwrdd yn parhau i chwilio am ffyrdd o arbed arian ynghyd á chwilio am fynhonellau arian ychwanegol. Gweler adroddiad ariannol llawn wedi ei gofrestru yn Nhy'r Cwmniau a Chomisiwn yr Elusennau.

*************

**Aelodaeth o'r bwrdd:**
Mae Aelodaeth y Bwrdd yn parhau i fod yn sefydlog am 2025-26. Camais i ról y Cadeirydd ym mis Medi 2021 gyda Ceredig Thomas yn is-Gadeirydd. Yn y rôl hon gobeithiaf adeiladu ar fy mhrofiad er hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog. Mae cryn sylw eleni wedi ei roi i farchnata yr ysgol er mwyn denu teuluoedd newydd.

Dengys y gofrestr bod presenoldeb Aelodau'r Bwrdd yn ein cyfarfodydd yn gyson iawn, gyda chyfarfodydd ar Zoom yn goresgyn trafferthion teithio o bell.

**Aelodau’r Bwrdd 2025-2026**

| Enw | Goruchwylio | Pwyllgor | Ymunodd â’r Bwrdd |
|---|---|---|---|
| 1.<br>Miss Emilia Davies o Ionawr 2025 | Adroddiadau tymhorol – atebolrwydd i'r Bwrdd am safon academaidd<br>Polisiau<br>Diogelu<br>Tros olwg o holl weithgareddau'r ysgol | | Medi 2023<br><br>AA o Ionawr 2025 |
| 2. Mrs Jane Jones | Anghenion Addysgol Arbennig | Cwricwlwm a Safonau | Medi 2023 |
| 3. Mrs Bev Williams | Llywodraethu Cyllid | Cyllid | Medi 2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. Ms Glenys Roberts, Cadeirydd | | Pob pwyllgor | Medi 2016 |
| 5. Ceredig Thomas | Disgyblu<br>Risg | Risg Cyllid | Ion 2020 |
| 6. Mrs Eleri Brady | Lles y staff | Marchnata Clerc y Llywodraethwyr | 2012 |
| 7. Mr Dai Edwards | Safonau addysgol<br>Staffio | Cwricwlwm a Safonau | Medi 2024 |
| 8.Mr Chris Wilcox | Staffio<br>Llywodraethu | | |
| 9. Mrs Emma Jenkins | | Cynrychiolydd y rhieni | Medi 2024 |
| | | | |

| Presenoldeb yn y cyfarfodydd | |
|---|---|
| 23/09/25 | 80% |
| 18/11/25 | 60% |
| 27/01/26 | 80% |
| 24/03/26 | 90% |
| 12/05/26 | 90% |
| 30/06/26 | 90% |

**Cyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd:**

**Is-Bwyllgorau**

Gofynnir i'r pwyllgorau gyfarfod o leiaf unwaith y tymor a chyflwyno adroddiad i'r Bwrdd.

- Cyllid
- Cwricwlwm a Safonau
- Risg
- Marchnata

Mae'r pwyllgorau canlynol yn cyfarfod yn ol yr angen

- Penodiadau /Staffio
- Disgyblu
- Gollyngiad/Dispensation

**Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol:**

Nid oes unrhyw achosion o dorri data wedi'u canfod na'u hadrodd ers cyflwyno'r GDPR ym mis Mai 2018.

**Diogelu Data Ysgolion**: Cymerwyd y camau a'r mesurau canlynol i sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR:
**Storio data wedi'i ganoli**: Mae holl ddata sensitif ysgolion electronig yn cael ei storio ar weinydd data canolog yr ysgol. Caiff data ei wahanu yn ôl swyddogaeth yr ysgol a'r staff, gan greu ardaloedd storio pwrpasol ar gyfer:

- Data AA
- Data sy'n gysylltiedig â'r swyddfa
- Data a gwybodaeth athrawon
- Data disgyblion

Caiff data sensitif ar bapur ei farcio'n briodol a'i storio yn ddiogel dan glo mewn cypyrddau ffeilio.
**Diogelwch Cyfrifiadurol**
Mae gan bob cyfrifiadur yn yr ysgol amddiffyniad gwrth-firws (Kaspersky) ac maent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y diffiniadau a'r meddalwedd gwrth-firws diweddaraf. Mae mur cadarn Sonic Wall yn ei le ar rwydwaith yr ysgol i atal mynediad heb awdurdod o'r rhyngrwyd i systemau ysgol. Penodwyd arbenigwr TG (Solomon Belay) i oruchwylio y gwaith hwn.

**Polisiau a dderbyniwyd yn ystod 2025-26**
Mae'r polisïau yn ymwneud â materion cwricwlaidd a gweithdrefnol a gellir eu cyrchu trwy wefan ein hysgol. Y polisïau a ddrafftiwyd neu a adolygwyd gan y Staff ac a gadarnhawyd gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn academaidd hon yw: **gweler atodiad**

**Diogelu**: **2025-2026**
Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb am Ddiogelu: Mrs Jane Jones. Ms Emilia Davies yw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSL) a'r Dirprwy-DSL Ms Ruth Tremain.

Cynhelir cyfarfodydd monitro Diogelu rhwng y DSL a'r Llywodraethwr Diogelu yn dymhorol. Anoga'r ysgol ddiwylliant agored lle mae plant yn hyderus i siarad am bryderon. Addysgir disgyblion i fod yn ymwybodol o beryglon ac yn arbennig y risgiau ar-lein sydd ar gynnydd. Mae dau bolisi wedi eu paratoi ar Bolisi Diogelwch Ar-lein (gan gynnwys Cyfryngau Cymdeithasol) a Pholisi Perthynas a Rhyw yn cynnig arweiniad clir ac yn olrain pwysicrwydd addysgu a diogelu plant.
Derbynia'r ysgol a'r cyfarwyddwr Briffiau Diogelu ar-lein wythnosol (Andrew Hall) sy'n ein galluogi i gadw ar y blaen â materion cyfredol a datblygiadau statudol.
Mae'r Bwrdd yn monitro cylch hyfforddiant Diogelu a hyfforddiant 'Atal' ar gyfer Staff a Chyfarwyddwyr. Derbyniodd y Staff a'r Bwrdd eu hyfforddiant blynyddol ym mis Medi 2024 gan Mrs Jane Jones.

**Prydles Safle**: Mae ein prydles gyda Chyngor Ealing yn parhau.
**Rhent Blynyddol**: Sicrhawyd gostyngiad o 10% yn y rent. Sicrhawyd hyn oherwydd cais oddi wrth yr ysgol sy'n wynebu heriau ariannol. Rent blynyddol o Ebrill 2025 ydi £21,948.

**Cysylltu â Rhieni a Disgyblion:**
Rhestrir manylion cyswllt y Llywodraethwyr ar wefan yr ysgol.

Mae'r Llywodraethwyr yn cysylltu â rhieni a disgyblion mewn amryw o ffyrdd megis: ymweliadau á'r ysgol,  mynychu digwyddiadau ysgol, cyngherddau ac mewn digwyddiadau hyrwyddo a chodi arian.
Mae cynrychiolydd o'r Bwrdd  yn bresennol yn ystod Nosweithiau Rhieni a Boreau Agored.

**Glenys Roberts**
**Cadeirydd y Bwrdd**
**Mehefin 2026**